Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y clywyd dros gyfnod y Nadolig am farwolaeth Mr Bob Edwards (Groes). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod Gretta, ei fab Eifion Edwards (Llansannan) a'r teulu, ac â brodyr a chwiorydd Bob – dau ohonynt yn aelodau mewn eglwysi yn y Fro hon, sef Eirwen Roberts (Hiraethog) a Lloyd Edwards (Groes) – yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thad yng nghyfraith, taid, hen daid a brawd addfwyn a charedig. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan weddïo y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am un mor annwyl.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant hefyd â Gwynfor Evans (Hiraethog) a'r teulu i gyd ym marwolaeth ei frawd, Emlyn Evans oedd yn byw yn y Rhyl. Hyderwn y byddant hwythau hefyd yn profi nerth a chariad Duw yn eu hamgylchynu dros y dyddiau a'r misoedd nesaf.

Anfonwn ein cofion at Clwyd Rogers (Llannefydd) ac Eurgain Pierce (Llannefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, a hefyd Merfyn Hughes sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Clatterbridge. Treuliodd Dilys Roberts (Henllan) a Gwenda Davies (Llansannan) amser yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd dros gyfnod y Nadolig ond diolchwn fod y ddwy wedi gwella'n ddigon da i gael dod adref erbyn hyn. Hyderwn y bydd y cleifion i gyd yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Llongyfarchiadau i Elgan Roberts (Llannefydd) a Siwan ar enedigaeth merch, Cadi Mair. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Aduniad Souled Out (2il–4ydd Chwefror 2024)

Penwythnos i bobl ifanc 15+ a myfyrwyr yng Ngholeg y Bala. Cyfle i weld hen ffrindiau, cyfarfod â phobl newydd, mwynhau gweithgareddau hwyl, yn ogystal ag addoli Duw a dysgu mwy amdano wrth archwilio'r Beibl hefo'n gilydd. Cost y penwythnos fydd £72. Mae'n bosib cofrestru ar-lein ar dudalen 'Aduniad' souledoutcymru.net neu trwy ffonio 01678 520565. *(Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd person o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob disgybl mewn addysg sydd am fynychu.)*

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14 Ionawr 2024

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Un dyn bach ar ôl

Yr un hen stori! Bob blwyddyn, yn ddi-ffael, un peth bach ar ôl. Mi wnâi deitl i gân ysgafn pe meddwn y ddawn i sgwennu peth felly, a phe na fyddai'r Gasgen wedi achub y blaen arnaf ers blynyddoedd. Ie, 'Un dyn bach ar ôl' oedd hi acw eleni. Wedi cadw'r addurniadau yn yr atig, mi welwyd cyn taflu'r goeden Nadolig fod un dyn bach pren glas a gwyn yn dal i lechu ar un o'i changhennau. Caiff lety mewn drôr yn y gobaith y cofiwn amdano'r Nadolig nesaf, os byw ac iach. Un flwyddyn, daliwr cardiau; blwyddyn arall, pelen wydr; a mwy nag unwaith am ryw reswm, pibonwy plastig. Oes, mae yna – yn ein tŷ ni, beth bynnag – wastad un peth ar ôl. Fyddwn i ddim yn poeni'n ormodol am hynny pe gallwn ddweud mai am addurniadau'r Nadolig yn unig y mae'n wir. Ond nid felly y mae, gan fod yn fy ngwaith ac ym mhopeth arall 'un dyn bach ar ôl' yn llawer rhy fynych. Rwy'n eiddigeddus o bobl drefnus sy'n llwyddo i orffen gwaith neu dasg. Yn amlach na heb yn fy mhrofiad i, mae yna rywbeth – neu rai pethau – ar ôl: rhywbeth i'w wneud; rhywun i'w weld.

A heb os, mae mwy nag 'un dyn bach ar ôl' yn fy ngherddediad â Duw: gormod o bethau na ddylaswn eu gwneud wrth gwrs, ond mwy na digon hefyd o bethau eraill y dylaswn eu gwneud. Ac am y pethau na wneuthum y dywed Iago wrthyf yn y Testament Newydd: 'Ac felly, pechod yw i rywun beidio â gwneud y daioni y mae'n gwybod y dylai ei wneud' (Iago 4: 17). Ond nid Iago'n unig chwaith, gan fod geiriau Iesu Grist ei hun yn f'argyhoeddi: 'Yn wir, rwy'n dweud wrthych, yn gymaint ag ichwi beidio â'i wneud i un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau chwaith' (Mathew 25:45).

Ar ddechrau blwyddyn, gwn mai dyma fydd fy stori eleni eto gwaetha'r modd. Diolch, felly, am warant yr Efengyl bod maddeuant am bob bai i'r edifeiriol trwy Iesu Grist. Ac oherwydd hynny, mi garwn feddwl y bydd yna, dros y misoedd nesaf, lai o bethau heb eu gwneud: llai rywsut o'r 'un dyn bach ar ôl'. Er mwyn hynny, pwyso fydd raid ar Dduw am arweiniad a gras, gan gofio bod gweddïo dros rywbeth yn help i sicrhau ein bod yn ei wneud, a gweddïo dros bobl yn ei gwneud yn fwy tebygol ein bod yn eu cofio a'u helpu.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ionawr 14eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Dr Owain Edwards. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:30.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn.

Dydd Llun, Ionawr 15fed

- **Cyfarfod Plant Pantpastynog** o 3:00-4:00 y pnawn o dan ofal tîm Bro Dinbych.
- **Cymdeithas Llansannan** – 'Gesiwch be?' dan ofal Rhys Dafis a'i dîm yn Festri Llansannan am 7:30. Croeso i bawb.

Dydd Mawrth, Ionawr 16eg

- ***Sylwch* NI FYDD Cinio Jangl** yn Festri Llansannan heddiw.

Dydd Iau, Ionawr 18fed

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?

Dydd Sul, Ionawr 21ain

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Corey Hampton. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Gymun yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **Oedfa Gymun yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10:15.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gyda Huw Tan y Graig yn arwain a'r Parch. Alun Morton Thomas yn pregethu.

Dydd Mawrth, Ionawr 23ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele am 6:30 yr hwyr. Yn ystod y cyfarfod, bydd Mr Meirick Lloyd Davies yn trosglwyddo'r llywyddiaeth i'r Parch. Andras Iago.

Dydd Mercher, Ionawr 24ain

- **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llansannan am 7:30 yr hwyr. *** DYDDIAD WEDI EI AIL-DREFNU**

Dydd Iau, Ionawr 25ain

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?

Dydd Sul, Ionawr 28ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Arwel Ellis Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Bydd yr Ysgol Sul yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd, ac Ysgol Sul yn Henllan am 10:00.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn.

Rhaghysbysiad

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro nos Fawrth, Ionawr 30ain** – mwy o fanylion y tro nesaf.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (24ain), os gwelwch yn dda.